**Cyngor Bro Llanllwni     Adroddiad Cyfarfod Gorffennaf 2024**

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfodydd.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol yn y cyfarfodydd. Bydd y Clerc yn holi am rif cyswllt.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf.  Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn archwilio'r adnoddau yn ystod Hydref 2024.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiadu'r cyfarfodydd misol yn cael eu gosod ar y wefan ac yn ymddangos yn y wasg.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD
Roedd y diffibrilion yn eu lle erbyn hyn a gobaith am hyfforddiant cyn hir.

CWTERION A DŴR YN CRYNHOI AR Y FFYRDD
Mae swyddogion y Cyngor Sir a'n cynrychiolydd etholedig ar y Cyngor Sir wedi derbyn yr holl gwynion ar y pwnc a ddaeth i sylw'r Cyngor Bro.

TYLLAU AR HYD Y FFYRDD
Mae'r cynghorwyr am geisio trefnu cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor Sir i drafod yr amryw ddiffygion ar ffyrdd y plwyf.

GOLEUADAU SOLAR
Ni fu datblygiad pellach ynglŷn â'r goleuadau ger y cysgodfannau bws yn y lleoliadau canlynol: Belle Vue, Dolgors â Pantllyn.

PWLL JAC – FFERM FELINDRE
Mae angen atgyweirio'r giât ar y llwybr cyhoeddus rhwng Pwll Jac a Fferm Felindre.

CYFRIF BANC LLOYDS
Mae angen i'r Clerc ymweld â changen Banc Lloyds yng Nghaerfyrddin. Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r cynghorwyr.

ARCHWILIO CYMRU
Cafwyd cadarnhad bod archwilio cyfrifon 2020 – 2021, 2021 – 2022,  2022 – 2023 wedi ei gwblhau.

MAESYCRUGIAU:
Mae'r arwydd i Maesycrugiau ger Pantllyn wedi cael ergyd ac angen ei ail osod.

CLODDIAU

Cafwyd cadarnhad bod y cloddiau ar hyd yr hewl fawr yn Llanllwni heb eu torri a bod hewlydd cyfagos wedi eu torri er mis Mai.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 09 Medi 2024 am 8yh.